IS-DDEDDFWRIAETH

# LlC24-42

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Medi 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 81(1), 82 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Hydref 2024.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

### Diwygio Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022

**2.**—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng nghyfarwyddyd 2—

(a) yn y lle priodol mewnosoder "mae i "Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion" yr ystyr a roddir i "Patient Group Direction" gan reoliad 213(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012;";

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) LlC22-06.

(b) yn lle'r diffiniad o "technegydd fferyllfa" rhodder—

"ystyr "technegydd fferyllol" ("*pharmacy technician*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 2 o'r Gofrestr o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a sefydlwyd ac a gynhelir o dan erthygl 19(1) a (2) o Orchymyn Fferylliaeth 2010(**1**);"

(3) Yng nghyfarwyddyd 3(2), yn lle'r troednodyn rhodder—

"Gellir cael y ffurflenni cymeradwy ar gyfer y gwasanaethau clinigol yn: https://www.gig.cymru/hpb/gwasanaethau-lleol/ ac https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-fferylliaeth/y-gronfa-ddata-fferyllol-i-gymru-gyfan/".

(4) Yng nghyfarwyddyd 6—

(a) ym mharagraff (2)(b)—

(i) ar ôl "fferyllydd cofrestredig" mewnosoder "neu'r technegydd fferyllol";

(ii) hepgorer y troednodyn;

(b) hepgorer paragraff (2)(c);

(c) ym mharagraff (2)(d), ar ôl "a'i ddiben sylfaenol yw" mewnosoder "i'r fferyllydd cofrestredig".

(5) Ar ôl cyfarwyddyd 6 mewnosoder cyfarwyddyd newydd—

**"Y Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw Tymhorol**

**6A.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw Tymhorol, ar gyfer personau o fewn ei ardal a'r tu allan iddi, gyda fferyllwyr GIG sydd wedi eu cynnwys yn ei restr fferyllol ac—

(a) sy'n darparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol o dan drefniant gyda Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 6,

(b) sy'n dymuno ymrwymo i drefniant i ddarparu'r Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw Tymhorol ac yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol am eu

(**1**) O.S. 2010/231, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/593.

bwriad i wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd 3(2),

(c) sy’n bodloni’r amodau a nodir yng nghyfarwyddyd 3, paragraffau (3) i (7) yn gynhwysol, a

(d) sy’n cytuno i ddarparu’r Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw Tymhorol yn unol â’r fanyleb berthnasol(**1**).

(2) Diben sylfaenol y Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw Tymhorol yw i’r fferyllydd cofrestredig neu’r technegydd fferyllol roi brechiad rhag y ffliw i glaf o dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion, neu roi brechiad rhag y ffliw i glaf o dan brotocol sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A o’r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (Protocolau sy’n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddio rhag y coronafeirws a’r ffliw).”

(6) Yng nghyfarwyddyd 8(1)(c), yn lle’r troednodyn rhodder—

“Mae gwasanaethau ychwanegol ar gael gan y bwrdd iechyd lleol https://www.gig.cymru/hpb/gwasanaethau-lleol/”.

(7) Yng nghyfarwyddyd 9(a), ar ôl “y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol” mewnosoder “, y Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw Tymhorol”.



**Llofnodwyd gan Andrew Evans, y Prif Swyddog Fferyllol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 27 Medi 2024**

(**1**) https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-fferylliaeth/y-gronfa-ddata-fferyllol-i-gymru-gyfan/